

## Siopa yn y Gorffennol – Nodiadau Athro

### Trafodaeth Gychwynnol:

- I le fyddwch chi'n mynd i siopa am fwyd? Sut fyddwch chi'n mynd yno? Yn lle fyddwch chi'n rhoi'r bwyd?

Heddiw rydym fel rheol yn mynd i'r archfarchnad mewn car ac yn rhoi'r bwyd mewn oergell, rhewgell neu gypyrddau adref.

- Ydych chi'n credu fod siopa yn wahanol yn y gorffennol? Pam/Pam ddim?

Byddai wedi bod yn wahanol iawn – doedd ceir ddim yn boblogaidd tan y 1920au-30au, doedd dim oergelloedd na rhewgelloedd, ychydig o fewnforion oedd o dramor felly doedd dim bwyd fel bananas a dim ffyrnau na phopdai ping, doedd bwyd allan o dun ddim yn gyffredin tan y 1920au.

### Newid ar y Stryd Fawr (Sleidiau 2 – 11)

**Sleidiau 2 – 3** yn dangos rhestrau siopa Elizabeth Martin o Vervil ym mis Rhagfyr – Ionawr 1763.

- Pam fyddai hi wedi prynu twrci?

Ar gyfer cinio Nadolig.

- Pa fwydydd eraill alwch chi eu gweld?

Roedd teulu'r Martins yn deulu cyfoethog ac felly roedd deiet eang ganddyn nhw - ymhlith yr eitemau ar y rhestr mae bara, wyau, menyn, hwyaden, cacen, coffi, wystrys, cimwch.

- Ydi hi'n anodd darllen y llawysgrifen?
- Pam fod rhestrau fel hyn yn brin?

Mae pobl fel arfer yn taflu eu rhestrau siopa.

Byddai bwyd wedi cael ei dyfu ar dir adref, neu ei brynu mewn marchnad leol. Roedd rhai siopau bychain, ond nid fel y rhai rydym ni wedi arfer â nhw heddiw.

**Sleid 4** yn dangos derbynebau am nwyddau a brynwyd yng Nghaerdydd. Yn y gorffennol ysgrifennwyd y derbynebau â llawysgrifen (am nad oedd tiliau) ac weithiau ar lythyr â phennawd oedd yn dweud wrthym yr hyn oedd y siop yn ei werthu. Mae'r derbynebau hyn ar gyfer gwneuthurwr esgidiau, teiliwr a gwerthwr gwlan yn y 1830au.

**Sleidiau 5-6** yn dangos cyfeirlyfrau masnachu Wellfield Road rhwng 1895-1964. Edrychwch ar y Cyfeirlyfr Masnachu ar gyfer 1895. Rhestr o dai ydyw (tai ydyn nhw

fel rheol os taw dim ond enw sydd wedi ei nodi). Ychydig iawn o siopau oedd bryd hynny.

- Cymharwch y cyfeirlyfrau ar gyfer 1895 a 1910 – beth yw'r gwahaniaeth?

Erbyn hyn mae yna siopau – er enghraifft gwneuthurwr esgidiau, gwerthwr ffrwythau a phobydd.

- Pam tybed?

Mae poblogaeth Caerdydd yn tyfu ac mae pobl angen prynu nwyddau felly mae llawer o'r tai yn cael eu troi yn siopau.

Mae'r Cyfeirlyfr ar gyfer 1924 yn dangos hyd yn oed mwy o siopau yn agor, er enghraifft hetwraig, gwneuthurwr esgidiau, siop bapurau, siop bysgod a gwerthwr dofednod.

- Pa fath o siopau fedrwch chi eu canfod yng nghyfeirlyfr 1964?

Erbyn hyn mae banc, siop win a gwirod, gemydd, siop drin gwallt, siop wlân a siop garpedi.

**Sleidiau 7 - 8** yn dangos cynlluniau adeiladau Wellfield Road ar gyfer 1913 a 1926 ac yn dangos y tai ar Wellfield Road yn cael eu troi yn siopau. Mae'r cynllun ar y chwith eithaf ar sleid 7 yn dangos y llawr gwaelod gwreiddiol tra bod y cynllun canol yn dangos newid y lawnt yn y blaen a'r parlwr yn ardal i'r siop.

**Sleidiau 9 – 11** Ffotograffau yw'r rhain o siopau ar Heol-y-Frenhines a Heol Santes Fair ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

- Beth fedrwch chi ei weld yn y lluniau?

**Sleid 9** yn dangos siop deganau yn Arcêd Morgan. Mae yna ddoliau, teganau gwthio, rhaffau sgipio, tedi bêrs yn hongian ar flaen y siop. Mae'r cynorthwywyr siop wedi eu gwisgo mewn sgertiau hir a blowsys gwyn.

**Sleid 10** yn dangos siop nwyddau metel Peglar. Mae yna fathau tun a bwcedi tun yn hongian tu allan. Maen nhw hefyd yn gwerthu eitemau bwyd ac mae caws a menyn yn cael ei hysbysebu.

Mae llinellau ar y ffotograff hwn oherwydd bod y plât gwydr wedi chwalu.

**Sleid 11** yn dangos siop gwaith haearn sy'n gwerthu pethau fel bwcedi, rholiau papur wal, rhawiau i'r ardd a chistiau glo (bwcedi). Ffotograff arall yw un o siop felysion Frank's oedd yn gwerthu cacennau a thomenni o losin i ddenu cwsmeriaid. Mae cig yn hongian y tu allan i'r cigydd! Roedd ganddyn nhw hefyd dyrrau o ganiau bwyd a bagiau tatws.

- Pa mor wahanol ydyn nhw i'n siopau ni heddiw?

Does dim eitemau yn hongian y tu allan i'n siopau ni mor aml â hynny. Roedd hyn yn cael ei wneud i hysbysebu cynnyrch, ond heddiw mae gennym gylchgronau a hysbysebion teledu. Mae'n well gan rai ohonom fynd i un siop i brynu popeth, ond bryd hynny roedd yn rhaid i bawb brynu gwahanol nwyddau o siopau gwahanol. Roedd siopau yn cau yn gynnar ar ddydd Mercher ac yn cau drwy'r dydd ar ddydd Sul.

### Dosbarthu i'r cartref (Sleidiau 12 – 15)

**Sleid 12** Llyfr dosbarthu pobydd yw hwn ar gyfer teulu ym 1930-31. Roedden nhw yn gallu gosod archeb wythnosol ar gyfer bara, bara arbennig, blawd a melysion.

**Sleidiau 13-15** Certiau dosbarthu yw'r rhain. Roedd gan Gaffi Dorothy lawer o gertiau i ddosbarthu bara a chacennau ledled Caerdydd (sleid 14). Fe ddechreuon nhw fel certiau dynnwyd gan geffylau ond a newidiodd i faniau â pheiriant wrth i deithio â modur dyfu'n fwy poblogaidd.

- Ydyn nhw yn cyflenwi i'n cartrefi ni heddiw?

Gallwn ni siopa ar y we a chael y nwyddau wedi eu cludo i'n cartref. Mae llawer yn defnyddio hyn oherwydd ei fod yn haws ac yn arbed amser.

- Pam ydych chi'n credu fod pobl angen nwyddau wedi eu cludo i'w cartref yn y gorffennol?

I ddechrau doedd dim ceir na thrafnidiaeth ar gael. Yn ystod oes Fictoria ac hyd yn oed i'r 1950au byddai llawer o siopau yn dosbarthu nwyddau i'ch cartref. Byddai pobyddion, y siop lysiau, cigyddion oll yn dosbarthu i'ch cartref. Roedd certiau llaeth ar gael hefyd lle gallech chi fynd â'ch jwg ato i roi llaeth ynddo, datblygodd hyn yn ddiweddarach yn ddynion llaeth yn dosbarthu poteli llaeth. Byddai'r cyfoethogion yn disgwyl i bob peth gael ei ddosbarthu i'w cartrefi.

### Canol Dinas Caerdydd (Sleidiau 16-22)

**Sleid 16** Ilun yw hwn o Heol y Santes Fair ym 1892 yn dangos y prysurdeb cynyddol yno.

**Sleid 17** Ilun yw hwn o fynedfa Neuadd Farchnad Caerdydd yn y 1880au. Mae yno hyd heddiw. Gallwch weld y sgaffaldau sy'n awgrymu bod siopau newydd yn cael eu hadeiladu o'i amgylch.

**Sleid 18** Hysbyseb ar gyfer porthorion o 1863 – os oeddech chi'n mynd i siopa yn y farchnad gallech chi hurio porthor marchnad i gario eich nwyddau adref.

**Sleidiau 19-21** Lluniau yw'r rhain o siopau adrannol newydd (Seccombes and Howell's) yn y 1920au a'r 30au.

- Fedrwch chi enwi siop adrannol yng Nghaerdydd heddiw?

Howell's, John Lewis, Debenhams, ayb

- Beth welwch chi yn y ffotograffau?

Roedd y rhan fwyaf o bethau mewn cypyrddau gwydr, byddai'r cynorthwyyr yn y siop yn nôl popeth i chi. Mae cadeiriau yno i chi eistedd arnyn nhw tra'n prynu eich nwyddau. Roedden nhw hefyd yn gwerthu llawer o ddillad a defnydd i bobl gael gwneud eu dillad eu hunain neu eu gyrru at deiliwr neu winiadwraig. Doedd dim cymaint o nwyddau masgynnyrch yr adeg honno.

**Sleid 22** yn dangos Seccombes yn y 1950au.

- Beth efallai sydd yn digwydd yma?

Ciw ar gyfer sêl mis Ionawr yw hwn – mae pobl wastad wedi bod yn hoff o fargen!

**Sleid 23** Mae Cyfrifiad Howell's o 1911 yn dangos fod llawer o bobl mewn gwirionedd yn byw uwch ben y siop. Roedd 140 o bobl yn byw yno i weithio yn y siop adrannol fel gwerthwyr a gwerthwagedd, gwerthwyr hetiau a gwiniadwagedd.

Heol-y-Frenhines, Heol y Santes Fair a'r Stryd Fawr oedd y prif strydoedd siopa oedd yn datblygu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Maen nhw'n boblogaidd hyd heddiw. Wrth i'r ugeinfed ganrif fynd rhagddo roedd gan bobl fwy o arian felly dechreuon nhw wario i fwynhau yn ogystal â gwario oherwydd angen.

### Caffis a Danteithion (Sleidiau 24 – 31)

**Sleidiau 24 – 27** Ffotograffau o Gaffi Dorothy a'r Dutch Cafe ar y Stryd Fawr a Heol-y-Frenhines yw'r rhain. Agorodd y ddau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd cynnydd mewn caffis newydd a thai bwyta.

- Beth welwch chi yn y ffotograffau?

Mae'r rhain yn dangos y caffis a'r siop fara o'r tu mewn, lle gallech brynu cacennau a bara i fynd adre gyda chi neu eistedd i mewn yn y siop a chael te a chacen. Gallwch weld y cacennau ffres a'r pobyddion wedi eu gorchuddio â blawd y tu allan i'r siop fara.

**Sleid 28** Poster hysbysebu ar Heol-y-Frenhines tua 1895.

- Fedrwch chi weld beth maen nhw yn ei hysbysebu?

Caboliad i'r grât, gwelyau, blawd ceirch, Roath Furnishing Company, ymbarelau ayb

**Sleidiau 29-30** Hysbysebion Toblerone o 1924. Dyw'r paced heb newid dim.

**Sleid 31** Rhestr o losin poblogaidd

- Ydych chi'n nabod unrhyw un o'r losin yma? Ydych chi wedi eu blasu erioed?

Siwgr Barlys, peli anis, bon-bons, malws melys, macarŵns, taffi, india-roc, ayb

### Yr Ail Ryfel Byd a Dogni (sleidiau 32-36)

- Daeth siopa yn anodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd; ydych chi'n gwybod pam?

Bomiwyd Caerdydd i atal nwyddau rhag cyrraedd o dramor felly roedd pethau fel bwydydd yn brin.

- Os nad oedd cymaint o fwyd ar gael ag arfer, beth ydych chi'n credu ddigwyddodd?

Cyflwynwyd dogni gan y Llywodraeth fel bod pawb yn cael cyfran gyfartal.

**Sleidiau 32-33** Mae rhain yn dangos llyfr dogni. Roedd pobl dim ond yn gallu mynd i siopau penodol i gasglu eu bwyd. Unwaith iddyn nhw dderbyn gwerth wythnos o fwyd, fe'i marciwyd yn y llyfr dogni fel bod pawb yn cael yr un faint.

**Sleid 34** Darn yw hwn o lyfr log Ysgol Parc Ninian; mae'n crybwyll anrhegion o'r Unol Daleithiau. 'Roedd yr anrhegion yn cynnwys bocsys o losin a gemau.'

- Pam ydych chi'n credu y byddai losin a gemau cystal anrhegion yn ystod y rhyfel?

Doedd dim llawer o losin na theganau yma oherwydd y prinder a'r dogni. Cafodd losin eu dogni tan 1953, amser maith wedi diwedd y rhyfel ym 1945.

- Beth arall allai pobl ei wneud i gael mwy o fwyd?

**Sleid 35** Dyma daflen ar gyfer ymgyrch 'Dig for Victory'. Mae'r rhain yn dangos cynlluniau'r llywodraeth i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain yn eu gerddi neu randiroedd fel bod mwy ar gael i'w fwyta.

**Sleid 36** Hysbysiad yw hwn o ymgyrch 'Wild Fruit Crop' lle anogwyd plant i bigo ffrwythau gwyllt ac i wneud jam yn yr ysgol.

- Ydych chi'n meddwl mai dim ond bwyd oedd yn cael ei ddogni?

Na – roedd nwyddau eraill fel papur, sebon, dillad ayb hefyd yn cael eu dogni.

### Y 1960au (Sleidiau 37-45)

**Sleidiau 37 – 41** Casgliad o luniau yn dangos Siop Adrannol David Morgan yn y 1960au. Efallai bod eich rhieni neu nain a taid yn cofio David Morgan's.

- Beth welwch chi yn y ffotograffau?

Yr adran deganau gyda chrud doliau, cracyrs Nadolig (mwy o ddewis na heddiw), setiau trê, arddangosfa ffenestr Nadolig – pa gemau sy'n cael eu hysbysebu?

**Sleid 42** Ffotograffau lliw o Howells ym 1965 yw'r rhain i ddatlu canmlwyddiant y siop. Mae'n dangos yr adran bersawr.

**Sleidiau 43 – 45** Hysbysebion dillad yw'r rhain o 'r 1960au. Hysbysebion ar gyfer dillad ysgol a dillad plant yw'r rhain. Mae'r sgwter (sleid 45) yn edrych yn debyg i'r rhai sydd gennym ni heddiw.

- A yw eich gwisg ysgol yn edrych fel hyn?
- A ydych yn hoffi'r dillad sy'n cael eu hysbysebu?

#### Syniadau sesiwn drafod:

- Pa adeg fyddai wedi bod yn well gennych i siopa ynddi – oes Fictoria (lle nad oedd yna siopau nodweddiadol), 1920au, yr Ail Ryfel Byd neu'r 1960au? Pam?
- Dwedwch wrtha i am un peth newydd rydych wedi ei ddysgu heddiw
- Dwedwch wrth bartner un gair newydd rydych wedi ei ddysgu ac eglurwch beth yw ei ystyr.

#### Gweithgaredd posib yn seiliedig ar y gweithdy hwn:

- Darganfyddwch ystyr y swyddi hyn – gwerthwraig hetiau, Crydd, gwerthwr melysion, a gwerthwr nwyddau haearn. Pa un hoffech chi fod? Pam?
- Tynwch lun golwg aderyn o fap o stryd siopa yn y 1920au-30au. Pa fath o siopau fyddai wedi eu cynnwys?
- Gwnewch arddangosfa yn dangos faint o fwyd a roddwyd i chi mewn dogn wythnos. Cynhwyswch brydau neu rysetiau nodweddiadol (er enghraifft Pastai Woolton a bisgedi moron). A fydddech chi wedi mwynhau'r rhain? A fyddai'r rhain yn ddigon i chi? Pa fwydydd o heddiw y bydddech chi'n gweld eu colli?
- Dyluniwch hysbyseb ar gyfer un o siopau adrannol Caerdydd yn y 1960au. Beth fedrwch chi eu prynu yno? Pam ddylai pobl siopa yno?